Cytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer ad-daliadau gyda dyledwyr

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer ad-daliadau gyda'r dyledwr. Mae'n ymwneud â chanfod a yw'r dyledwr mewn sefyllfa i wneud ad-daliad llawn ar unwaith, a datrys unrhyw anawsterau sydd gan y dyledwr o ran cydnabod y ddyled. Cyflawnir hyn trwy sefydlu proffil y dyledwr. Rhaid i chi allu cyfeirio'r dyledwr at adrannau eraill/asiantaethau allanol pan fo hynny'n briodol. Os bydd y dyledwr yn anghytuno ynghylch y swm sy'n ddyledus, rhaid i chi fedru cymryd camau priodol naill ai i ddilysu neu i wrthweithio'r safbwynt hwn. Rhaid i chi ofalu bob amser na fyddwch yn peryglu'r sefyllfa gyfreithiol. Bydd angen i chi ddangos cysondeb wrth wneud penderfyniadau a gweithredu ag uniondeb bob amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Dod i gysylltiad â dyledwyr gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol ar gyfer eu sefyllfaoedd unigol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Gwirio bod dyledwyr yn gallu dilysu eich perthynas gyda'r sefydliad y mae'r dyledion yn gysylltiedig ag ef, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Darparu gwybodaeth i ddyledwyr sy'n egluro eu rhwymedigaethau o ran dyledion yn eglur, a hefyd eu sefyllfa gyfreithiol, ac yn ymdrin â chwestiynau sydd ganddynt yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Sefydlu proffil y dyledwr yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Cofnodi manylion cytundebau dyledwr tuag at ffordd ymlaen o ran ad-dalu'r swm sy'n ddyledus yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Cyfeirio dyledwyr at adrannau eraill neu asiantaethau allanol lle bo hynny'n briodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Egluro a chofnodi rhesymau a manylion lle ceir anghydfod ynghylch rhan o'r dyledion neu'r cyfan
8. Cyflawni ymchwiliad llawn o anghydfodau, gan gynnwys caffael tystiolaeth ategol neu i'r gwrthwyneb gan bartïon priodol yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Cymryd camau sy'n briodol ar gyfer canlyniad ymchwiliadau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Gwirio bod yr holl gyfathrebu ysgrifenedig ansafonol yn glir, yn gywir a heb beryglu sefyllfa gyfreithiol y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli
11. Gwirio bod cofnodion cywir ac wedi'u diweddaru yn cael eu cadw, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad.
12. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol
13. Nodi risgiau posibl, gan gynnwys unrhyw weithgaredd twyllodrus yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewis o ddulliau cyswllt
2. Yr wybodaeth y mae'n ofynnol eich bod chi'n ei datgelu i ddyledwyr i gyflawni rhwymedigaethau rheoliadol eich sefydliad
3. Y rhwymedigaethau sydd ar ddyledwyr, a'r canlyniadau posibl i ddyledwyr os na fyddant yn cyflawni'r rhwymedigaethau hynny
4. Yr hawliau cyfreithiol a'r awdurdodaethau sy'n berthnasol i wahanol fathau o gredydwyr a dyledwyr
5. Beth a olygir gan 'broffil y dyledwr' a sut mae'n cael ei sefydlu
6. Y gwahanol adrannau neu asiantaethau cyngor allanol y gellir cyfeirio dyledwyr atynt am gyngor a help
7. Sut mae cyrchu, casglu a gwerthuso tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad i anghydfod
8. Camau gweithredu y gellir eu cyflawni wedi ymchwilio i anghydfod
9. Dulliau priodol o gyfathrebu, gan gynnwys ffurfiau ansafonol, sy'n effeithiol a heb fod yn peryglu safbwynt cyfreithiol sefydliad y credydwr
10. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth
11. Ymarfer a gweithdrefnau eich sefydliad yng nghyswllt adnabod, hybu a chymhwyso safonau moesegol
12. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso deddfau, trwyddedau, rheoliadau a chodau fel y maent yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn cyfleu gwybodaeth gymhleth mewn modd clir
2. Rydych yn arddangos pendantrwydd a hyder wrth weithredu
3. Rydych yn ymdrin â'ch gwaith mewn modd trefnus
4. Rydych yn parhau'n ddiplomataidd ac yn ddigynnwrf wrth ddelio gyda sefyllfaoedd heriol
5. Rydych yn sensitif i wahaniaethau diwylliannol, a materion iechyd a llesiant
6. Rydych yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais wrth ddelio gydag eraill

Cytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer ad-daliadau gyda dyledwyr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPDC02 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Casgliadau Dyledion |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-ddyledion; credyd; ad-dalu; peidio â gwneud ad-daliadau; heb eu talu; risg; ansolfedd; credydwr; dyledwr; esgaladu. |